

Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd

COFNODION

Cofnodion Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd a gynhaliwyd ddydd Mawrth 12 Ebrill 2016 yn ystafelloedd Eleth ac Eilian.

Yn Bresennol (yn nhrefn yr wyddor):

Enw	Sefydliad
Aled Morris Jones	Twrcelyn
Anna M Jones	Cyngor Cymuned Tref Alaw
Bleddyn Rowlands	Cyngor Cymuned Llanfachraeth
Bryan Owen	Cyn arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn
Clifford Everett	Cyngor Tref Caergybi
Y Cyng. Dafydd Rhys Thomas	Ynys Gybi
Dennis Evans	Cadeirydd
Elfed Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Enid Williams	Gwasanaeth Ieuenctid Ynys Môn
Eric Torr	Cwmni Cemaes Cyf/Ynni Talybolion
Eurwyn Hughes	Ysgol Uwchradd Bodedern
Gavin Crook	National Grid
Geraint Hughes	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Gwynne Morris Jones	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Gwynne Evans	Ffermwyr Ifanc Cymru
Henry Aron	Cyfoeth Naturiol Cymru
Y Cyng. Ieuan Williams	Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn – Lligwy
Iwan Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Jac Jones	Cyngor Cymuned Mechell
Jackie Blackwell	Canolfan Cyngor ar Bopeth Ynys Môn
Y Cyng. Jeffrey M. Evans	Ynys Gybi
Y Cyng. John Griffith	Talybolion
Y Cyng. Kenneth P Hughes	Talybolion
Lowri Joyce	Hitachi
Margaret Thomas	Canolfan Cyngor ar Bopeth Ynys Môn
Mark Thornton	Cadeirydd Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru – Pwyllgor Ynys Môn
Paddy McNaught	Unite the Union
Y Cyng. Richard Owain Jones	Twrcelyn
Rhiannon Morgan	Ffermwyr Ifanc Cymru
Robin Beckman	Pennaeth Rhaglenni Ynni a'r Sector Niwclear
Sarah Andrews	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Stuart Law	Magnox Ltd.
Tom Conway	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
Trevor Howes	CNC – Swyddog Cyswllt Rhanddeiliaid

Y Cyng. William Thomas Hughes	Twrcelyn
Y cyhoedd	
Elfed Williams	
Gwilym Williams	

Ymddiheuriadau:

Enw	Sefydliad
Y Gwir Anrhydeddus Albert Owen AS	Aelod Seneddol dros Ynys Môn
Aled Roberts AC	Aelod Rhanbarthol y Cynulliad dros Ogledd Cymru
Alli Hunt	Academi Sgiliau Genedlaethol Niwclear
Alun Roberts	Cymunedau yn Gyntaf Ynys Môn
Anwen Morgan	Ysgol Uwchradd Bodedern
Carys Edwards	Pennaeth Adnoddau Dynol Cyngor Sir Ynys Môn
Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC	Aelod Cynulliad dros Ddwyrfor Meirionnydd
Delyth Jones	Agewell Amlwch
Janet Finch Saunders AC	Aelod Cynulliad dros Gonwy
Y Gwir Anrhydeddus Liz Saville Roberts AS	Aelod Seneddol dros Ddwyrfor Meirionnydd
Y Cyng. Llinos Medi Huws	Talybolion
Llio Johnson	Partneriaeth Gwynedd ac Ynys Môn
Maurice Core	Cynrychiolydd Safle NDA ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa
Melanie Wymer	Ymddiriedolaeth Bodorgan
Philip Clark	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Steve Graham	Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear
Will Edwards	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Y cyhoedd	
Michael Dodds	

Os nad yw eich enw, drwy ryw amryfusedd, wedi'i gynnwys ar y rhestr neu os yw wedi'i gofnodi'n anghywir, cysylltwch â Horizon ar 0800 954 9516 neu ag ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com.

I gael gwybodaeth gyffredinol am y prosiect neu i ofyn unrhyw gwestiynau i Horizon, cysylltwch â'r tîm ar 0800 954 9516 neu ebstiwrch ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com ac edrychwch ar <http://www.horizonnuclearpower.com/hafan>

Mae modd gweld y cofnodion hyn a'r holl gyflwyniadau o gyfarfod Grŵp Cyswllt y Prosiect ar <http://www.wylfaplq.com/cymraeg/>

1. Gair o groeso gan y cadeirydd – Dennis Evans

- Estynnodd y Cadeirydd, Dennis Evans (DE), groeso i bawb i'r cyfarfod.

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf – Dennis Evans

- Aeth DE drwy gofnodion y cyfarfod blaenorol (15 Rhagfyr 2015) a chytunwyd eu bod yn gofnod gwir a chywir o drafodaethau'r cyfarfod.

3. Materion yn codi – Dennis Evans

- Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

4. Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Brosiect Wylfa Newydd – Greg Evans

- Estynnodd **DE** wahoddiad i **Greg Evans (GE)**, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Safle, Pŵer Niwclear Horizon, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect.
- Cyfeiriodd **DE** at sylw yn y newyddion ynghylch a oedd gan y diwydiant niwclear ddyfodol ym Mhrydain. Gofynnodd i **GE** roi sylwadau am hyn. Dywedodd **GE** fod gan y diwydiant ddyfodol; nid yw'n ddiwydiant sy'n cael ei gefnogi gan bawb ond mae'n un sy'n dal i fodoli ac mae wedi'i seilio ar dechnoleg sydd wedi'i phrofi. Oherwydd y gwaith enfawr sy'n gysylltiedig â phrosiectau o'r fath, yn ogystal â'r costau cyfalaf sy'n berthnasol cyn bod modd gwneud penderfyniad terfynol am y buddsoddiad, gellir dweud nad yw'n faes hawdd. Roedd yn ffyddiog bod gan y diwydiant niwclear ddyfodol ar Ynys Môn, yn rhannol oherwydd bod y lleoliad yn ddelfrydol.
- Yna aeth **GE** yn ei flaen i roi ei gyflwyniad, gan nodi bod Horizon wedi newid y ffordd mae'n trefnu ei fusnes dros y naw mis diwethaf. Erbyn hyn mae ganddo dair ffordd glir – datblygu busnes, yr orsaf bŵer a pharodrwydd ar gyfer cynhyrchu. Mae Horizon eisoes hanner ffordd drwy'r broses o newid i'r ffordd yma o weithio.
- Aeth **GE** yn ei flaen i drafod creu swyddi, a rhoddodd y manylion diweddaraf am benodiadau diweddar:
 - **Duncan Hawthorne** – mae Duncan wedi cael ei benodi'n Brif Swyddog Gweithredol. Soniodd **GE** am ei swyddi blaenorol, gan gynnwys gweithio gyda Bruce Power, gorsaf bŵer niwclear 8 uned y llwyddodd i'w thrawsnewid yn ystod ei gyfnod yn y swydd.
 - **Sasha Wynn Davies** – mae Sasha wedi cael ei phenodi'n Bennaeth Datblygu Strategol (Cymru) a bydd yn dechrau ar y swydd ar 1 Mai. Bydd yn gweithio gyda **GE** i gydlynu a chadarnhau datblygiadau strategol.
 - Cafwyd tri phenodiad lleol yn ddiweddar – peiriannydd safle, hyfforddwr a pheiriannydd gweithrediadau (pob un o Magnox). Byddai rheolwr masnachol yn ymuno â nhw cyn bo hir.
 - Roedd cyfweiliadau wedi dechrau ar gyfer swyddog cynnwys y gymuned a fyddai'n delio â datblygiadau economaidd-gymdeithasol.
 - Mae Horizon hefyd yn cynnal cyfweiliadau ar gyfer swydd Pennaeth Gweithrediadau (yn gweithio yng Nghaerloyw i ddechrau) ac mae bwriad i greu swydd Pennaeth Peirianeg hefyd.

- Mae swyddi'n dal i gael eu hysbysebu ar-lein – ar wefan Horizon – ac mewn papurau newydd yng Ngogledd Cymru ar gyfer swyddi yn Wylfa.
 - Mae swyddfa'r safle yn cael ei hymestyn i ddal 80 aelod o staff a bydd yn cynnwys ystafell gyfarfod a man hyfforddi.
- Yn rhan nesaf y cyflwyniad, cafwyd diweddariad ar ddatblygiadau ym maes addysg a hyfforddiant, a oedd yn cynnwys y canlynol:
 - Roedd y Cynllun Prentisiaeth Dechnegol wedi cael ei lansio ym mis Chwefror, gan gynnig hyd at 12 lle. Roedd Horizon wedi cael dros 250 o geisiadau ac erbyn hyn roedd wrthi'n llunio'r rhestr fer.
 - Roedd y Cynllun Datblygu Graddedigion wedi cael ei lansio'n ddiweddar hefyd, gan gynnig 6 lle yn y brif swyddfa ac yn Swyddfa Safle Wylfa Newydd. Roedd Horizon wedi cael dros 200 o geisiadau.
 - Mae Horizon yn dal i weithio'n agos gydag ysgolion yng nghyswllt pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg) a bydd ymestyn cyrhaeddiad Horizon mewn ysgolion yn rhan o waith Sasha.
 - Daeth **GE** â'r cyflwyniad i ben drwy roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymgysylltu gyda'r gymuned:
 - roedd 11 digwyddiad wedi cael eu cynnal dros y 3 mis diwethaf, ac roedd cannoedd o bobl leol wedi dod iddynt.
 - Yn fwy diweddar, roedd cyfres o ddigwyddiadau i blant a phobl ifanc wedi cael eu cynnal, yn targedu grwpiau mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd ac mewn Prifysgolion.
 - Mae Horizon yn dal i gynnal Cymorthfeydd Agored a digwyddiadau eraill yn y gymuned, gan gynnwys noddi'r twrnament golff elusennol yng Nghlwb Golff Porth Llechog fis Mai.
 - Roedd £60,000 wedi cael ei roi i elusennau lleol dros y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd rhagor wedi'i gymeradwyo heddiw.

Cwestiynau:

- Cyfeiriodd **Gwynne Morris Jones** (CPRW) at adroddiad diweddar a oedd yn dweud ei bod yn annhebygol iawn bod Wylfa Newydd yn mynd i gael ei gwblhau. Gofynnodd beth oedd sail adroddiad y BBC?
 - Atebodd **GE** mai unigolyn gyda chysylltiad â'r Blaid Werdd yn yr Almaen/Ffrainc oedd wrth wraidd yr adroddiad, ac er ei fod yn cynnwys disgrifiadau rhesymegol o'r heriau, ni wyddai **GE** sut oedd yr awdur wedi dod i'w gasgliad. Nid oedd yn tynnu sylw at ddim byd nad oedd Horizon yn ymwybodol ohono'n barod.
- Nododd **Dr Tom Conway** ei fod wedi cwyno i'r BBC.
- I'r un perwyl, dywedodd y **Cyng. Jeff Evans** fod y cyfryngau wedi gofyn iddo roi sylwadau ynghylch a oedd gan Wylfa Newydd ddyfodol ai peidio. Roedd adroddiadau fel yr uchod a'r rheini ar y newyddion wedi arwain at lawer o gwestiynau, ac roedd yn awyddus i gael gwybod beth gellid ei wneud i leddfu pryderon pobl. Awgrymodd efallai y byddai'n fuddiol petai Horizon yn gwneud datganiad ar y mater hwn.
 - Dywedodd **Leon Flexman** fod llawer o gyhoeddiadau cadarnhaol am Brosiect Wylfa Newydd wedi ymddangos mewn datganiadau i'r wasg ers i'r mater hwn godi. Dywedodd hefyd ei bod yn bur

sicr nad hon fyddai'r stori newyddion olaf o'r fath gan fod straeon fel hyn i'w disgwyl ar brosiect seilwaith mawr. Dywedodd y byddai Horizon yn parhau i rannu negeseuon cadarnhaol gan fod angen rhoi hyder i bobl – a phobl ifanc yn enwedig – y bydd y Prosiect yn mynd yn ei flaen.

5. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â Datblygu'r Safle – Charlie Tasker

- Rhoddodd **Charlie Tasker (CT)**, Cyfarwyddwr Datblygu Prosiect, Pŵer Niwclear Horizon, y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau ar y safle heddiw ac yn ystod y misoedd nesaf, gan gynnwys y canlynol:
- Ymestyn Swyddfa'r Safle:
 - Roedd gwaith i ymestyn swyddfa'r safle wedi dechrau fis Chwefror. Roedd y cwmni arbenigol **Elliotts** wedi cael ei gyflogi i wneud y gwaith, ynghyd â'r contractwr lleol, **DU Construction**.
 - Mae'r swyddfa bresennol yn llawn yn barod, ond bydd y datblygiad newydd yn dal hyd at 80 aelod o staff. Roedd **CT** yn disgwyl y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod yr haf, erbyn mis Mehefin.
- Gwaith Arolygu:
 - Mae arolygon pwysig yn dal i gael eu cynnal. Mae cam cyntaf y gwaith gwerthuso archaeolegol (sy'n rhan o'r broses o leihau risgiau cyfnod adeiladu'r prosiect) wedi cael ei gwblhau.
 - Mae gwaith arolygu yn mynd rhagddo fel rhan o archwiliadau tir yr A5025, a bydd yn parhau tan ddiwedd Ebrill, i'w ddilyn gan ragor o waith manwl o bosib.
 - Roedd asesiadau hawliau tramwy cyhoeddus, tirwedd ac effaith weledol yn mynd rhagddynt. Dywedodd **CT** y gallai hyn helpu i hwyluso'r gwaith o ail-broffilio darnau o dir i liniaru effaith weledol safle Wylfa Newydd.
 - Traffig a thrafnidiaeth – dywedodd **CT** fod Horizon yn dal i asesu ei effaith ar y rhwydwaith ffyrdd ac yn ceisio penderfynu pa fesurau lliniaru fyddai eu hangen. Bydd ail gam ymgynghoriad cyn ymgeisio Horizon, a fydd yn cael ei gynnal eleni, yn rhoi rhagor o oleuni ar y mater hwn.
- Yr amgylchedd ac ecoleg:
 - Mae gwaith arolygu sydd ar y gweill yn cynnwys paratoi i wneud rhagor o waith archwilio'r tir i'r dde o'r safle. Dechreuwyd ar y gwaith ar y môr fis Hydref/Tachwedd diwethaf ond bu'n rhaid rhoi'r gorau iddi oherwydd tywydd gwael. Mae'r elfen hon bellach ar fin cael ei hail-lansio, a bwriedir gwneud gwaith archwilio ar y môr ym Mhorth-y-Pistyll yn ystod yr haf.
- Uwchraddio cyfleustodau:
 - Mae **Dŵr Cymru** wedi cwblhau ei waith maes ar gyfer y brif bibell ddŵr newydd.
 - Mae prosiect ail-alinio **SP Energy Networks** ar y gweill ers mis Tachwedd diwethaf a bydd yn dod i ben tua mis Mehefin.
 - Mae Horizon yn gweithio mewn partneriaeth â chwmnïau unigol i gydlynu gweithgareddau a gwneud yn siŵr bod y trigolion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

- Gwaith ar y gweill:
 - Mae'n hanfodol gwneud yn siŵr bod y safle'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn barod ar gyfer gwaith datblygu. Mae dros 200 erw o dir i'w reoli, gan gynnwys strwythurau sydd eisoes yn bodoli, pwyntiau mynediad, fflora a ffawna, torri gwair a gwneud yn siŵr bod tenantiaid yn cydymffurfio â chyfyngiadau amgylcheddol angenrheidiol.
 - Mae cynlluniau ar y gweill i adleoli Labordy Arolygon Ardal a Chanolfan Rheoli Argyfwng Amgen Magnox. Bydd y cais cynllunio ar gyfer hyn yn cael ei gyflwyno tua diwedd Ebrill.
- Cyfleoedd yn y Gadwyn Gyflenwi:
 - Mae cynifer o gwmnïau lleol â phosib yn cael eu cyflogi.
 - Mae hyd at 15 o gontractwyr lleol yn rhan o waith Structural Soils/Archwiliadau Tir.
 - Bu pum busnes lleol yn gweithio gyda Wessex Archaeology ar waith archaeolegol
 - Mae DU Construction o Gaergybi ar hyn o bryd yn helpu Elliotts gyda'r gwaith o ymestyn swyddfa'r safle
 - Mae'r busnes arlwyio teuluol o Lanrhyddlad, Y Tebot Pridd, wedi ennill y contract i ddarparu gwasanaeth arlwyio symudol ar y safle.

Cwestiynau

- Holodd y Cyng. Ken Hughes pam fod Horizon yn mynd mor bell oddi wrth lwybr gwelliannau arfaethedig yr A5025 i wneud arolygon?
 - Dywedodd **CT** y gallai sawl rheswm fod wrth wraidd hyn. Er enghraifft, roedd y gwelliannau i'r ffordd (h.y. adrannau newydd o'r ffordd a gynigir gan Horizon) yn gwyro yn fwy neu lai oddi wrth lwybr y ffordd bresennol, a byddai cynnal arolygon bob ochr i'r llwybr arfaethedig yn golygu bod angen gwneud yr arolwg gryn bellter oddi wrth y ffordd bresennol. Mae'n bosib y bydd angen arolygon manylach hefyd pan fydd pethau o ddiddordeb yn dod i'r golwg, er enghraifft madfallod dŵr cribog.
- Holodd **Cliff Everett** o Gyngor Tref Caergybi beth allai Horizon ei wneud i annog contractwyr i ddefnyddio cyflenwyr lleol, er enghraifft dur?
 - Dywedodd **CT** fod gofyn ystyried y mater cymhleth hwn yn ofalus iawn, ond roedd y Prosiect yn gwbl ymroddedig i hyrwyddo defnyddio cyflenwyr o'r DU pan fydd modd.
- Dywedodd y **Cyng. Aled Morris Jones** mai prosiect adeiladu Wylfa Newydd fyddai'r prosiect adeiladu mwyaf yng Ngorllewin Ewrop, ac er nad cyfrifoldeb Horizon oedd hyn, roedd yn gobeithio y byddai Horizon yn edrych ar y mater hwn ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Hitachi a Llywodraeth y DU. Roedd hefyd yn croesawu'r ffaith bod Horizon yn ystyried effeithiau posib y prosiect ar y ffordd o'i safle i Amlwch, ac roedd yn edrych ymlaen at glywed mwy am y mater hwn.
- Dywedodd y Cadeirydd **Dennis Evans** fod yr ymgynghoriad anffurfiol ynghylch llety gweithwyr wedi dod i ben erbyn hyn, a holodd a oedd gan **CT** unrhyw wybodaeth i'w rhannu â'r Grŵp Cyswllt yn hyn o beth.

- Dywedodd **CT** fod yr adborth yn dal i gael ei ddadansoddi. Roedd angen i Horizon ystyried yr holl wybodaeth a gasglwyd ac yna'i defnyddio i fireinio ei gynlluniau cyn ail gam yr ymgynghoriad cyn ymgeisio.
- Dywedodd y **Cyng. William Hughes** ei fod yn falch iawn o weld bod safleoedd penodol yn cael sylw a bod cwmnïau lleol llai yn ennill gwaith ar y Prosiect yn barod. Holodd a oedd yna unrhyw ffordd y gallai Horizon gefnogi busnesau lleol a'u helpu i dendro am waith yn llwyddiannus?

Mynegodd bryder ynghylch Ysgol Cemaes hefyd, a diogelwch y plant pan fyddai traffig adeiladu trwm yn yr ardal yn sgil y gwaith adeiladu. Roedd yn bryderus y byddai mwy o ddefnydd ar lonydd cefn lleol wrth i bobl geisio osgoi'r traffig adeiladu.

- Dywedodd **CT** fod cefnogi busnesau lleol yn fater o bwys mawr i Horizon a'u bod eisoes yn edrych ar hyn.
- Roedd **CT** yn ymwybodol bod tanffordd ger yr ysgol, ac roedd wedi gofyn i'w dîm edrych ar y posibilrwydd o ddechrau ei defnyddio unwaith eto.
- Dywedodd **Elfed Jones** o Gyngor Llanbadrig fod y danffordd wedi cael ei chlirio ond nad oedd wedi cael ei hagar. Hefyd, ni fyddai hyn yn ateb i famau gyda phramiau.
 - Gofynnodd **CT** hefyd i bawb nodi bod Horizon yn cynnig darparu gwasanaeth parcio a theithio ac y byddai llefydd parcio personol yn brin ar y safle. Byddai cludiant yn cael ei drefnu hefyd i ddod â phobl i'w gwaith o ddwyrain yr ynys.
- Dywedodd y **Cyng. John Griffith** y byddai goleuadau traffig ac ati yn achosi oedi hir wrth wneud gwelliannau i'r A5025. Yn sgil hyn, byddai traffig yn mynd drwy Llannerch-y-medd ac ar hyd ffyrdd nad ydynt yn addas o gwbl ar gyfer cynnydd o'r fath mewn traffig.
 - Dywedodd **CT** fod Horizon yn gwbl ymwybodol o'r mater hwn ac y bydd yn rhoi trefniadau rheoli traffig ar waith er mwyn atal hyn rhag digwydd.
- Diolchodd y **Cyng. Richard Owain Jones** i **CT** am ei sylwadau.
- Holodd **Gwynne Morris Jones** a oedd Horizon yn gwybod bod awyrlongau yn gallu cario llwythi o hyd at 200 o dunelli erbyn hyn. Oedd Horizon wedi ystyried hyn ar gyfer danfon cydrannau mawr i'r safle?
 - Dywedodd **CT** y byddai'r dull hwn o ddanfon cydrannau'n peri dipyn o bryder iddo o safbwynt iechyd a diogelwch – ond ychwanegodd y byddai cychod yn cael eu defnyddio i ddod â chydrannau a deunyddiau mawr i'r safle drwy'r Cyfleuster Dadlwytho Morol arfaethedig. Byddai hyn yn helpu i leihau symudiadau ar y ffordd.
- Tynnodd **Dr Tom Conway** sylw at broblemau ar Ffordd Nanner (heibio'r Ffatri Jam). Byddai angen lledu'r ffordd os byddai angen iddi ddelio â lorïau mawr. Dywedodd mai lorïau cymalog o Wlad Pwyl oedd yn danfon ffrwythau i'r Ffatri Jam. Dim ond tri lle pasio sydd ar y ffordd. Roedd pethau'n waeth hyd yn oed ar y ffordd arall (o Frynaber). Er ei fod yn nodi mai Cyngor Sir Ynys Môn sy'n gyfrifol am y ffordd, gofynnodd i Horizon edrych ar wella Ffordd Cemlyn drwy roi mwy o lefydd pasio arni, ac edrych ar 'ran waelod' Ffordd Cemlyn.
 - Dywedodd **CT** y byddai'r mater hwn yn cael sylw.

6. Ymgynghoriad ar Asesiad Dyluniad Generig ABWR y DU – Iwan Williams

- Rhoddodd **Iwan Williams (IW)**, Rheolwr Rhaglen Ynys Ynni, Cyfoeth Naturiol Cymru, gyflwyniad ar rôl Cyfoeth Naturiol yn y prosiect hwn. Dywedodd fod llawer o waith Cyfoeth Naturiol yn ymwneud â rhoi arweiniad i Horizon ar anghenion ac amodau amgylcheddol.
- Soniodd beth oedd prif gyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol h.y. Asesiad Dyluniad Generig, rheoliadau amgylcheddol, ymgynghorai cynllunio, rhoi arweiniad a chynghor i'r datblygwr, gweithio gyda phartneriaid rheoleiddiol ac ymgynghoriadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Aeth **IW** yn ei flaen i amlinellu'r prif drwyddedau amgylcheddol oedd yn berthnasol i brosiect Wylfa Newydd:
 - Draenio'r safle – paratoi a chlirio'r safle; mae hyn yn angenrheidiol ar gyfer draenio dŵr wyneb oddi ar y safle
 - Trwydded Gwaredu Sylweddau Radiolegol
 - Dŵr oeri o'r adweithyddion – angen trwydded oherwydd y cemegau a'r gwres dan sylw
 - Gweithgarwch hylosgi – generaduron ar y safle
 - Trwydded Forol – mae angen trwydded gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer unrhyw waith adeiladu ar y môr i asesu goblygiadau amgylcheddol
 - Echdynnu – trwydded waredu i leihau lefel y dŵr daear ar y safle
- Aeth **IW** ymlaen at yr Asesiad Dyluniad Generig. Mae gwaith wedi dechrau ar hwn ers mis Ionawr 2013. Mae'n gyfle i asesu'r dechnoleg mae Horizon yn bwriadu ei defnyddio ac a oes angen gwneud unrhyw addasiadau i ddefnyddio'r dechnoleg yn y DU.
- Yna amlinellodd **IW** y chwe cham sy'n rhan o'r Broses Trwyddedu Amgylcheddol Generig:
 - Cychwyn
 - Asesiad cychwynnol
 - Asesiad manwl. Roedd hyn yn cynnwys 11 Adroddiad Technegol ac asesiadau parhaus. Y gobaith oedd y byddai'r cam hwn wedi'i gwblhau erbyn yr haf.
 - Ymgynghoriad – tymor yr hydref 2016. Byddai hyn yn cynnwys ystyried sut mae rhoi'r cyfle gorau posib i'r cyhoedd roi eu sylwadau. Y gobaith oedd y byddai modd trefnu cyfarfod o'r grŵp cyswllt hwn lle gallai Cyfoeth Naturiol roi cyflwyniad ar yr asesiad. Byddai sesiynau galw heibio yn cael eu trefnu hefyd a byddai adborth yn cael ei gasglu. Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd cael mewnbwn gan y grŵp hwn pan fydd yr ymgynghoriad yn agor.
 - Adolygiad ar ôl yr ymgynghoriad
 - Penderfyniad a datganiad (diwedd 2017).

Cwestiynau:

- Dywedodd **Mr Jac Jones** o Gyngor Cymuned Mechell fod y cyngor wedi cael gwybod ei fod yn ymgynghorai statudol yn yr asesiad amgylcheddol a bod angen iddo roi adborth. Roedd y Cyngor yn awyddus i wneud

hyn ond nid oedd yn meddu ar yr arbenigedd angenrheidiol. A fyddai Cyfoeth Naturiol yn fodlon rhoi'r cymorth angenrheidiol iddo allu deall ochr dechnegol pethau?

- Gofynnodd **Mr Elfed Jones** o Gyngor Cymuned Llanbadrig am gymorth hefyd.
 - Atebodd **IW** fod yr Asiantaeth yn fodlon dod i gyfarfod â'r cyngor er mwyn rhoi arweiniad iddo. Awgrymwyd y gallai Cyngor Cymuned Llanbadrig a Chyngor Cymuned Mechell elwa o gymorth o'r fath gan Cyfoeth Naturiol.
- Atgoffodd **Lowri Joyce** yr aelodau bod Hitachi-GE wedi lansio gwefan i gefnogi proses yr Asesiad Dyluniad Generig. Gallai pobl gyflwyno cwestiynau drwy'r wefan a chael atebion.
- Nododd y **Cyng. Aled Morris Jones** fod gan Horizon Gytundeb Cynllunio Perfformiad (PPA) â Chyngor Sir Ynys Môn ac roedd yn teimlo bod angen i Horizon gael trefniant tebyg â Chyngor Cymuned Llanbadrig a Chyngor Cymuned Mechell hefyd er mwyn iddynt allu ymateb yn briodol i ymgynghoriadau.
- Gofynnodd **DE** i Gyngor Cymuned Llanbadrig a Chyngor Cymuned Mechell weithio gyda'i gilydd gyda Cyfoeth Naturiol.
- Gofynnodd **Dr Tom Conway** am gopi llawn o gyflwyniad IW. **NODYN WEDI'R CYFARFOD: MAE CYNRYCHIOLYDD AR RAN HORIZON WEDI CADARNHAU I MR CONWAY BOD HOLL GYFLWYNIADAU'R GRŴP CYSWLLT PROSIECT YN CAEL EU LLWYTHO I FYNY AR WEFAN Y GRŴP AR ÔL POB CYFARFOD. GELLIR EU LLWYTHO I LAWR O'R FAN HONNO.**
- Roedd **Dr Tom Conway** hefyd yn cwestiynu'r drefn drwyddedu gymhleth, a gofynnodd ai cael nifer o sefydliadau gwahanol yn gyfrifol am gydsynio i wahanol agweddau ar Brosiect Wylfa Newydd oedd yr ateb mwyaf effeithlon.
 - Dywedodd **LF** nad oedd hyn yn anarferol i brosiectau seilwaith mawr. Roedd yn golygu y byddai'r amrywiol agweddau'n cael eu hystyried gan y cyrff mwyaf addas i roi cyngor ac arweiniad mewn unrhyw faes technegol.
- Holodd **DE** sawl aelod o staff Cyfoeth Naturiol oedd yn canolbwyntio ar Brosiect Wylfa Newydd ar hyn o bryd.
 - Dywedodd **IW** fod wyth aelod o staff llawn amser yn gweithio ar Brosiect Wylfa Newydd ar hyn o bryd. Byddai'r nifer hwn yn cynyddu i tua 20 aelod o staff llawn amser y flwyddyn nesaf ac yn aros ar y lefel honno am y ddwy flynedd nesaf o leiaf. Dywedodd fod Cyfoeth Naturiol yn cael tua phum cyfarfod gyda Horizon bob wythnos ar hyn o bryd.

7. Unrhyw fater arall

- Rhoddodd **Lowri Joyce** ddiweddariad cryno ar lafar ar weithgareddau Hitachi.
 - Gofynnodd **DE** iddi roi cyflwyniad ffurfiol i'r pwyllgor hwn yn y cyfarfod nesaf yn sôn am ddatblygiadau diweddaraf Hitachi.

Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan National Grid – Gavin Crook



- Rhoddodd **Gavin Crook**, Prif Reolwr Prosiect, National Grid, y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau National Grid:
 - Roedd National Grid wedi bod yn bresennol mewn nifer o ddigwyddiadau ymgynghori gyda Horizon yn gynharach yn y flwyddyn.
 - Roedd National Grid wedi cael oddeutu 2,000 o ymatebion i'w ymgynghoriad ac wrthi'n dadansoddi'r adborth ar hyn o bryd.
 - Byddai adroddiad adborth yn cael ei gyhoeddi dros yr ychydig fisoedd nesaf, a byddai rhagor o ddigwyddiadau gwybodaeth yn cael eu cynnal yn ystod yr haf (gan gynnwys rhagor o wybodaeth am y rhan o brosiect National Grid lle mae'n croesi'r Fenai). Byddai cam nesaf y broses ymgynghori ffurfiol yn dechrau ddiwedd y flwyddyn.
- Rhoddodd y **Cyng. Ieuan Williams** ddiweddariad cryno ar y fframwaith ymgysylltu ffurfiol rhwng Pŵer Niwclear Horizon a Chyngor Sir Ynys Môn. Dywedodd fod llawer o wybodaeth fanwl yn dod i law erbyn hyn a bod sesiynau briffio rheolaidd yn cael eu cynnal gyda Horizon. Dywedodd fod y berthynas yn un dda a'i bod yn gweithio'n iawn.
- Atgoffodd **Richard Foxhall**, Rheolwr Cysylltiadau Rhanddeiliaid, y cyfarfod am y Gymhorthfa Agored nesaf a fyddai'n cael ei chynnal am 2.30pm yn Neuadd y Dref Amlwch ddydd Llun 18 Ebrill.

Cloi

Daeth y cyfarfod i ben am 7.00pm.